NewsBank inc.

Mynediad at Bapurau Newydd Cymru a'r Deyrnas Unedig

Ffeithiau Cyflym

- Mae wedi'i ddatblygu'n benodol ar gyfer llyfrgelloedd yng Nghymru
- Mae'n cynnwys papurau newydd o Gymru ac ar draws y Deyrnas Unedig
- Mae'n ddelfrydol ar gyfer astudio ac / neu olrhain materion a digwyddiadau lleol a chenedlaethol
- Mae'n galluogi ymchwilwyr i ddod o hyd yn rhwydd i ffeithiau, dadansoddiadau, safbwyntiau a mwy
- Opsiynau chwilio cyflym, hawdd
- Mae tiwtorial ar-lein wedi'i ddarparu
- Hefyd ar gael mae amrywiaeth o eitemau hyrwyddo sy'n hybu ei ddefnyddio

Mynediad hawdd at newyddion lleol, rhanbarthol a chenedlaethol

Mae *Mynediad at Bapurau Cymru a'r Deyrnas* Unedig wedi'i gynllunio'n benodol ar gyfer llyfrgelloedd yng Nghymru, ac wrth gynnig teitlau poblogaidd o Gymru ei hun, mae'n sicrhau mynediad at ymdriniaeth fanwl ar faterion a digwyddiadau lleol a rhanbarthol. Mae teitlau adnabyddus o Loegr, yr Alban, Gogledd Iwerddon ac Iwerddon hefyd wedi'u cynnwys, gan ehangu ymhellach gwmpas y dull ymchwil hwn.

Newyddion Cymru

Mae'r casgliad hwn o fwy nag 20 o bapurau newydd Cymreig yn cynnig teitlau dyddiol ac wythnosol sydd o ddiddordeb i ddefnyddwyr, gan gynnwys rhifyn Gogledd Cymru o'r *Daily Post*, yn ogystal â'r *Western Mail* a'r *South Wales Evening Post*. Mae'r erthyglau newyddion sydd ynddynt yn rhoi sylw manwl i fusnesau, llywodraeth, chwaraeon, gwleidyddiaeth, y celfyddydau, diwylliant, cyllid, iechyd, gwyddoniaeth, addysg a mwy – a hynny o drefi mawr a bach, fel ei gilydd. Gall hysbysiadau e-bost bob dydd roi gwybod i ddefnyddwyr am y datblygiadau diweddaraf yn llywodraeth y Cynulliad, newyddion ffermio, digwyddiadau rygbi a chriced a llawer mwy. Hefyd wedi'u cynnwys mae erthyglau adolygol - sy'n ddelfrydol ar gyfer cymharu materion a digwyddiadau yn y byd sydd ohoni â newyddion y gorffennol.

Newyddion y Deyrnas Unedig

Mae'r grwp hwn o dros 350 o bapurau newydd yn darparu sylw ac ymdriniaeth fanwl o faterion a digwyddiadau yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Caiff y papurau trymion a'r rhai ysgafnach o bwys cenedlaethol eu hategu gan restr o bapurau newydd dyddiol ac wythnosol poblogaidd, gan gynnwys *The Times* (1985 ymlaen), *Financial Times*, *Economist, The Guardian*, ac *The Scotsman*. Mae'r casgliad cyfoethog hwn yn sicrhau fod darllenwyr ac ymchwilwyr yn cael gwybod y newyddion lleol a chenedlaethol diweddaraf, yn ogystal â datblygiadau mewn gwledydd cyfagos sy'n effeithio ar fywyd yng Nghymru.

Dewisiadau chwilio pwerus

Caiff *Mynediad at Bapurau Cymru a'r Deyrnas Unedig* ei ddiweddaru bob dydd, ac mae'n cynnig miliynau ar filiynau o erthyglau papurau newydd cyfredol a rhai archif er mwyn i ymchwilwyr eu defnyddio i ddarganfod union leoliad ffynonellau, cymharu agweddau ac olrhain pynciau yn hanesyddol ac yn ddaearyddol. Gall defnyddwyr fynd ati i chwilio'n gyflym ac yn hawdd drwy naill ai un papur newydd o Gymru neu bapurau Cymru a'r DU ar yr un pryd. Mae modd creu chwiliadau pwrpasol a'u cadw i'w defnyddio yn y dyfodol neu eu ffurfweddu ar gyfer hysbysiadau e-bost dyddiol.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â NewsBank, inc. drwy ffonio 0800 028 5310 neu anfon e-bost at custservice@newsbank.com.

121509. Access Wales & U.K. Newspapers. -Welsh version